Ydych chi'n Caru Darllen?

Llyfrgelloedd Caerdydd ydym ni ac rydym yn caru pobl sy'n darllen!

Os ydych yn perthyn i grŵp darllen, yn chwilio am un yn eich ardal, neu hyd yn oed yn meddwl am ddechrau un, dyma beth allwn ei wneud ar eich cyfer:

- Gallwn eich helpu i ddod o hyd i grŵp darllen sy'n cwrdd ar amser ac mewn lle sy'n gyfleus i chi
- Gallwn hysbysebu eich grŵp i aelodau newydd
- Gallwn argymell llyfrau gwych i'w darllen
- Gallwn ddarparu hyd at 15 copi o'r un llyfr i chi, i'w cadw at hyd at 6 wythnos
- Rydym yn cynnig llwyth o weithgareddau llawn hwyl drwy gydol y flwyddyn – perffaith i'r rhai sy'n caru llyfrau!

Am ragor o wybodaeth am ein cyfleusterau grŵp darllen, ymwelwch â'ch llyfrgell leol
www.caerdydd.gov.uk/llyfrgelloedd

Neu, cysylltwch â Chydlynydd y Cynllun Grŵp Darllen
Sue Thomas ar 029 2075 4657 neu e-bostiwch Llyfrgell Rhydypennau ar llyfrgellrhydypennau@caerdydd.gov.uk
Nodwch at sylw Sue Thomas ar eich e-bost

Llyfrgelloedd Caerdydd

Grwpiau Darllen

Yr hyn sydd gennym i'w gynnig i chi...

www.caerdydd.gov.uk/llyfrgelloedd

CARDIFF
CAERDYDD

Meddwl am ymuno â grŵp darllen?

Os ydych yn chwilio am grŵp darllen yn eich ardal, gadewch i Lyfrgelloedd Caerdydd eich helpu chi. Rydym yn cynnal cyfarfodydd grŵp darllen rheolaidd yn y rhan fwyaf o'n llyfrgelloedd. Gallwn hefyd eich cysylltu â grwpiau darllen tu allan i'r llyfrgell yn eich ardal. Chwiliwch drwy gatalog y llyfrgell i ddod o hyd i grŵp agos atoch chi. Ewch i http://ibistro.cardiff.gov.uk/, clicio ar 'Cymdeithasau,' yna dewiswch 'Grwpiau Darllenwyr ac awduron.'

Eisiau hysbysebu eich grŵp darllen i aelodau newydd?

Gallwch hysbysebu eich grŵp darllen ar restrau'r Clybiau a Chymdeithasau ar gatalog y llyfrgell. Ewch i http://ibistro.cardiff.gov.uk/, clicio ar 'Cymdeithasau,' yna dewis 'Cyflwyno (printio a dychwelyd)' gan ddilyn y cyfarwyddiadau ar y sgrin. Neu, ewch i'r Adran Wybodaeth ar Lawr 4 Llyfrgell Ganolog Caerdydd, neu ffôniwch 029 2078 0963.

Ddim yn gwybod pa lyfr i'w ddarllen nesaf?

Gadewch i ni eich helpu chi! Gallwn argymell gwerthwyr gorau'r funud, enillwyr gwobrau talent newydd, clasuron, neu ein ffefrynnau ni! Galwch mewn i'ch llyfrgell leol am sgwrs. Neu, ewch i gatalog y llyfrgell http://ibistro.cardiff.gov.uk/ a chlicio ar 'Poblogaidd' i ganfod beth mae eraill yn ei ddarllen.

Copïau niferus o'r un llyfr yn rhy ddrud i'w prynu?

Beth am gofrestru gyda'n cynllun grŵp darllen am ddim? Gall aelodau'r cynllun fenthyg hyd at 15 copi o'r un llyfr neu un cerdyn llyfrgell yn unig. Gallwch hefyd gadw llyfrau'n hirach na'r cyfnod benthyg arferol (hyd at 6 wythnos, yn dibynnu ar alw). Dewiswch o blith 200 o deitlau grêt a rhagor yn ein casgliad grŵp darllen. Cadwch lyfrau yn ôl ar gyfer eich cyfarfod, yna dychwelwch hwy i unrhyw lyfrgell. Does dim rhaid i chi eu dychwelyd i gyd ar unwaith, gall bob aelod o'ch grŵp ddychwelyd eu llyfr pan fyddant wedi ei orffen, a hynny i'r llyfrgell fwyaf cyfleus iddyn nhw. Mae gennym lwyth o lyfrau i chi ddewis ohonynt, fodd bynnag os nad yw'r un yr hoffech ei ddarllen gennym, fe wnawn ein gorau glas i gael gafael arno ar eich rhan. Er mwyn cofrestru gyda'r cynllun, anfonwch gynrychiolydd o'ch grŵp darllen i'r llyfrgell i gofrestru fel y prif gyswllt - a dyna ni, does dim byd haws! Deallwn ei fod yn anodd cadw llygad ar yr holl lyfrau, felly peidiwch â phoeni, wnawn ni ddim codi tâl arnoch am golli na difrodi unrhyw lyfr.

Chwilio am weithgareddau llawn hwyl i'w mwynhau gyda'ch grŵp darllen?

Rydym yn cynnal nifer o ddigwyddiadau cyffrous gydol y flwyddyn. I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.caerdydd.gov.uk/digwyddiadaullyfrgelloedd. Cofiwch edrych yn rheolaidd!